GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board




# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update



*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 8: wythnos **08/03/2021**

## Cynnydd Wythnosol (1 - 8 Mawrth)

**Rydym bellach wedi rhoi 228,843 o frechlynnau** (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos) **ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd.**




Mae wythnos brysur o'n blaen ac yn ogystal â'n canolfannau brechu cyfredol, byddwn hefyd yn rhoi brechlynnau yng Nghanolfan Eglwys y Drindod yng Nghasnewydd am y pythefnos nesaf.

Mae meddygon teulu yn parhau i frechu unigolion cymwys sydd yng Ngrŵp blaenoriaeth 6 a hyd yn hyn maent wedi brechu 46.6% o bobl. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys oedolion rhwng 16 a 64 oed sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol sy'n eu rhoi mewn mwy o risg o glefyd difrifol a marwolaeth a gofalwyr di-dâl perthnasol.

Yr wythnos hon byddwn yn dechrau brechu pobl yn y grŵp oedran 60 i 64 oed a dylai bawb gael llythyr yn y 3 wythnos nesaf. Peidiwch â chysylltu â ni, arhoswch i'ch llythyr gyrraedd a bydd y cyfarwyddiadau llawn yn hwnnw.

## Y brechlyn a thawelwch meddwl

Rydym eisiau i bawb deimlo'n gyfforddus pan fyddant yn cael eu brechu, felly rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw bryder diwylliannol, ofn nodwyddau, neu orbryder. Mae ein staff brechu yn hynod ddeallgar ac mae gennym fannau preifat arbennig yn ein canolfannau brechu os hoffech gael eich brechu yn breifat.

Cofiwch wisgo dillad ymarferol, llac ar ddiwrnod eich brechiad fel ei bod yn rhwydd cyrraedd rhan uchaf eich braich.

Mae'n bwysig cael dau ddos o'r brechlyn i roi'r amddiffyniad hirdymor gorau i chi. Cadwch eich cerdyn brechlyn yn ddiogel a gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ag ef i'ch apwyntiad ar gyfer eich ail ddos.




## Os ydych chi wedi cael eich brechlyn

Mae'n cymryd amser i'ch corff ddatblygu amddiffyniad ar ôl unrhyw frechlyn.**Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch** iamddiffyn eich hun. Hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod a fydd y brechlyn Covid-19 yn eich atal chi rhag cael eich heintio â'r feirws, a'i drosgwlyddo i eraill.

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**228,843**

**Cyfanswm y dos cyntaf 190,444**

**Cyfanswm yr ail ddos 38,399**

(hyd at 08/03/2021)

### FFIGYRAU BRECHU
(hyd at 08/03/2021)

| | |
|---|---|
| **Pobl 80 oed a'n hŷn** | **94.5%** |
| **Pobl 75-79 mlwydd oed** | **95.1%** |
| **Pobl 70-74 mlwydd oed** | **95.3%** |
| **Pobl 65-69 mlwydd oed** | **91.8%** |
| **Grŵp 6** | **46.6%** |



## Os ydych yn 65-69 oed, neu'n 72-79 oed ac nad ydych wedi cael gwahoddiad am frechiad

I'r rhai sy'n 65-69 oed, neu'n 72-79 oed, rhowch wybod i ni os nad ydych wedi cael eich gwahoddiad am frechiad COVID-19 drwy lenwi'r ffurflen ar ein gwefan https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-72-79-and-not-received-your-invitation/

Os ydych yn 70-71 oed, 80 oed neu hŷn, yn Hynod Fregus yn Glinigol neu yng Ngrŵp 6, ac wedi'ch cofrestru â meddyg teulu yng Ngwent, cysylltwch â phractis eich meddyg teulu os nad ydych wedi cael eich gwahoddiad.

Mae'r brechlyn ar gael drwy apwyntiad yn unig.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch brechlynnau COVID-19 yng Ngwent ar gael ar ein tudalen brechlyn COVID-19 https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine.

## Amrywiaeth enfawr o arbenigeddau



Rydym yn hynod ffodus o gael arbenigwyr iechyd o amrywiaeth eang o arbenigeddau yn gweithio yn ein Canolfannau Brechu Torfol. Mae Catherine yn Hylenydd Deintyddol o Ganolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill yn Nhrefynwy, ac ar hyn o bryd mae'n dosbarthu brechlynnau Covid-19 yn ein Canolfan Brechu Torfol yng Nghwmbrân. Dywedodd *"Rwy'n teimlo'n hynod freintiedig o gael bod yn rhan o'r Rhaglen Brechu Torfol, ac mae'n gwbl wahanol i'm rôl arferol. Mae gweld cymaint o aelodau'r cyhoedd yn ddiolchgar o gael eu brechlynnau yn gwneud y gwaith yn werth chweil."*

## Diolch i chi am eich negeseuon o gefnogaeth

Rydym wedi cael llu o negeseuon yn diolch ar ôl i bobl gael eu brechlynnau...

*"Hoffwn ddiolch i'r staff yn Stadiwm Cwmbrân a welodd fy ngŵr a minnau fore heddiw. Gwnaethom deithio o Drefynwy a chawsom ein synnu gan ba mor ddidrafferth oedd prosesu a chael ein brechlynnau.*
*Roeddem yn teimlo'n hynod ddiogel yn yr amgylchedd ac edrychwn ymlaen at ein hail ddos o'r brechlyn cyn hir."* Susanna Dent

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Hynod Fregus Yn Glinigol | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 50-54 oed | Meddygfeydd |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |

## Amseru ail ddosiau (gwahaniaeth rhwng Oxford AstraZeneca a Pfizer)

Mae'r Rhaglen Brechu Torfol wedi dechrau cyflwyno ail ddosiau'r brechlyn Pfizer, a lle bynnag mae'r cyflenwad yn caniatáu rydym yn awyddus i ddod â'r cyfnod rhwng y dosiau o 11-12 wythnos. Ein nod yw rhoi ail ddosiau'r brechlyn Pfizer i'r rheiny a gafodd eu brechlyn cyntaf rhwng 7 Rhagfyr a 21 Chwefror erbyn diwedd mis Mawrth.

I'r rheiny a gafodd y brechlyn Oxford AstraZeneca - y cyfnod rhwng y dosiau sy'n dangos yr effeithiolrwydd uchaf yw 12+ wythnos a glynir wrth y cyfnod hwnnw oni bai bod rhesymau clinigol unigol i ddefnyddio cyfnod byrrach. Bydd y rhaglen yn dechrau cyflwyno apwyntiadau ar gyfer ail ddos yr AstraZeneca o 29 Mawrth.